

## **Bwletin yr Awdurdod - Mehefin 2003**

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ddydd Gwener, 23 Mai 2003.

### **Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2003. Yn ychwanegol, ac ar gais y pwyllgor cytunodd yr Awdurdod y dylid ail-enwi'r Pwyllgor Archwilio fel y 'Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg' i adlewyrchu'r ffaith bod materion rheoli risg wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor hwn.

### **Adolygiad**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod Aelodau'r Awdurdod y noson gynt pan drafodwyd y swydd o gynnal adolygiad o weithgareddau S4C. Y casgliad oedd y dylid cynnal adolygiad mewnol o flaen unrhyw broses adolygu allanol. Roedd yr Awdurdod ei hun yn awyddus i asesu'r holl ystod o opsiynau strategol oedd yn wynebu S4C ar hyn o bryd yn y lle cyntaf. Cytunwyd y dylid gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gomisiynu adolygiad allanol o S4C i ddilyn y broses fewnol hon.

Yn y cyfamser, gofynnwyd i'r swyddogion, erbyn cyfarfod nesaf yr Awdurdod, gynhyrchu amserlen a syniad o'r prif benawdau y dylai'r adolygiad mewnol ganolbwyntio arnynt.

### **BAFTA Cymru**

Nodwyd â phleser mawr llwyddiant S4C yn ystod seremoni wobrwyo BAFTA Cymru pan enillwyd 18 allan o'r 34 wobwr. Llongyfarchwyd pawb oedd yn gysylltiedig gyda'r llwyddiannau hyn.

### **Gwasanaeth Coffa Syr Goronwy Daniel**

Diolchwyd i'r Ysgrifennydd am ei holl waith caled wrth iddo drefnu'r Gwasanaeth Coffa ar ran teulu Syr Goronwy Daniel. Fe fu'n gyfarfod arbennig ac ysbrydoledig iawn. Cafwyd cyfraniadau gan yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies, Yr Athro Derec Llwyd Morgan, Syr John Meurig Thomas, Dr Glyn Tegai Hughes ac Mr Emrys Evans.

## **Gwasanaeth y Cynulliad**

Adroddwyd ar ddadansoddiad o gostau darparu gwasanaeth byw o'r Cynulliad ar S4C2 ac esboniwyd y prif ffactorau oedd angen cymryd i ystyriaeth. Wedi trafod y manylion cytunwyd bod gwasanaeth y Cynulliad yn cynnig gwerth am arian. Cytunwyd y dylid parhau i ddarparu gwasanaeth y Cynulliad ac, yn ogystal, y dylid bwydo'r casgliad hwn i mewn i'r broses adolygu.

## **Rhaglenni 2004**

Ystyriwyd adroddiad ar drafodaethau'r comisiynwyr wrth benderfynu ar gomisiynau rhaglenni ar gyfer 2004. Cydnabuwyd bod cynnwys y papur yn adlewyrchu'r strategaeth a osodwyd gan yr Awdurdod y llynedd a'i fod yn cynnig sail synhwyrol ar gyfer cymryd penderfyniadau ar gyfer 2004. Cydnabuwyd hefyd bod yna faterion o fewn y papur fyddai angen i'r Awdurdod roi ystyriaeth ofalus iddynt yn ystod y broses o gynhyrchu ei ddatganiad ar ddiwedd y flwyddyn ar ei flaenoriaethau ar gyfer rowndiau comisiynu yn y dyfodol.

## **Y Diweddaraf ar y Mesur Cyfathrebu**

Ystyriwyd papur oedd yn gosod allan y diweddaraf ar daith y Mesur Cyfathrebu trwy'r Senedd. Nid oedd unrhyw beth penodol i'w ychwanegu at gynnwys y papur, heblaw i dynnu sylw'r Aelodau at y ffaith y byddai EPGs a'r sylw y dylid rhoi i ddarlledwyr cyhoeddus yn debyg o gael eu trafod yn ystod y pythefnos nesaf.

## **Y Perthynas Rhwng Awdurdod S4C ac OFCOM**

Ystyriwyd papur a amlinellodd natur y berthynas rhwng Awdurdod S4C ac OFCOM. Nodwyd yn benodol y byddai gofyn i'r Awdurdod gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn datganiad polisi rhaglenni fyddai'n gorfod cydymffurfio â chanllawiau wedi'u gosod gan OFCOM. Byddai'r datganiad hwn yn cael ei gymryd i ystyriaeth gan OFCOM pan fyddai'r corff hwnnw yn adolygu sefyllfa darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar draws y Deyrnas Gyfunol. Nid oedd yn hawdd gweld ar hyn o bryd sut byddai'r broses hon yn datblygu ond roedd yn debygol y byddai angen i S4C drafod hwn yn gynnar gyda swyddogion OFCOM wrth iddynt gael eu penodi.

## **Cyflwyniad ar Sylw i'r Rhanbarthau**

Croesawyd i'r cyfarfod Elin Haf Gruffydd Jones, sef rheolwr yr Uned Fonitro ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Rhoddodd gyflwyniad ar waith ymchwil yr oedd yr Uned wedi'i wneud ar y sylw yr oedd lleoliadau a rhanbarthau yn eu cael o fewn rhaglenni Cymraeg S4C. Nododd yr Awdurdod y modd yr oedd Cymru wedi'i rannu i mewn i ranbarthau ar gyfer y gwaith yma a'r gwahanol ardaloedd o fewn y rhanbarthau hynny. Roedd yr ymchwil wedi ei seilio ar sampl dwy wythnos ar wahân (sef, 7-13 Hydref 2002 a 17-23 Chwefror 2003). Edrychwyd ar sawl agwedd o'r gwasanaeth rhaglenni wrth asesu'r sylw roedd gwahanol ranbarthau ac ardaloedd yn ei gael. Yn benodol, nodwyd yr isod.

O ran sylw i'r rhanbarthau ar raglenni newyddion cafodd y Gogledd 34%; y Canolbarth 26% a'r De 40%. Ar y llaw arall, y sylw o ran rhaglenni heblaw am newyddion oedd: y Gogledd 32%; y Canolbarth 41% a'r De 27%. Ymhellach, o safbwynt rhaglenni drama, cafodd y Gogledd 33% o sylw; y Canolbarth 49%; a'r De 18%. Yna o ran yr holl raglenni heblaw am newyddion a drama y sefyllfa oedd bod y Gogledd yn cael 32% o'r sylw; y Canolbarth 40%; a'r De 28%. Wrth edrych ar y sefyllfa o safbwynt yr holl raglenni, gwelwyd bod yna gydbwysedd cyffredinol rhwng y tri rhanbarth dros y ddwy wythnos, lle cafodd y Gogledd 33% o'r sylw, y Canolbarth 37%, a'r De 30%. Er hynny, nodwyd bod yna rai ardaloedd o fewn y gwahanol rhanbarthau yn ymddangos yn gyson (megis Arfon Dwyfor; Sir Gâr; a Chaerdydd) tra roedd ardaloedd eraill (megis Maldwyn, Brycheiniog, Maesyfed, Meirion, Penfro a Gwent) yn cael fawr o sylw o gwbl. Serch hyn, o fewn y sampl o ddwy wythnos, nid oedd unrhyw ardal wedi'i anwybyddu'n llwyr.

## **Materion Eraill**

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd yr isod:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 9 Mai 2003
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol